# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 2 Ebrill 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(192)v5

1 **Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

2 **Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion hynod arwyddocaol yn yr ymgynghoriad papur gwyn ar iechyd cyhoeddus, yn dilyn y sylw yng nghyfryngau'r DU a'r datganiad ysgrifenedig bore heddiw?

3 **Cynnig i ddiwygio Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) (2010) (5 munud)**
**NDM5481 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 5(1) o Fesur Cynulliad

Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010:

Yn penderfynu bod Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn cael ei diwygio fel nad yw'r swyddi na'r disgrifiadau canlynol o unigolion bellach wedi eu hanghymhwyso o aelodaeth o Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

a) Aelod o Dŷ'r Arglwyddi;

b) Unigolyn a oedd yn aelod o’r naill neu’r llall o'r paneli a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad yn unol â phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad dyddiedig 4 Gorffennaf 2007 ac 8 Mai 2008.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/4/contents [Saesneg yn unig]

4 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (15 munud)**
**NDM5487 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 1, paragraff 1, i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Rheol Sefydlog 10.5:

Yn cytuno i enwebu Nicholas Bennett er mwyn ei benodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5 **Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron (60 munud)**
**NDM5482 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar

26 Mawrth 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

6 **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5484 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu;

2. Yn galw ar y Prif Weinidog i egluro'r rôl y mae Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn ei chwarae o ran cyflawni'r dangosyddion hyn;

3. Yn gresynu at fethiant ymddangosiadol yr Uned Gyflawni i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn well yn achos cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu ar gael yn:

http://cymru.gov.uk/about/programmeforgov/data?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi canfyddiadau adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus o ran dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu;

Mae adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael yn:

http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi dangosyddion ystadegol a thargedau ochr yn ochr â holl strategaethau a pholisïau'r Llywodraeth.

7 **Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5485 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y bydd un o bob 10 o blant a'r glasoed yn dioddef o broblem iechyd meddwl ac yn cydnabod pwysigrwydd ymyriad cynnar i gynorthwyo pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

2. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol o adolygiad 2009 o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac yn nodi'r pryderon sylweddol yn adolygiad dilynol 2013 o faterion diogelwch.

3. Yn gresynu bod nifer y bobl ifanc sy'n aros mwy na 14 wythnos i gael gwasanaethau seiciatrig plant a'r glasoed wedi cynyddu bron bedair gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, o 199 ym mis Ionawr 2013 i 736 ym mis Ionawr 2014.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) mynd i'r afael â'r amrywiad annheg o ran argaeledd a hygyrchedd CAMHS yng Nghymru;

b) ymchwilio i'r amseroedd aros rhwng asesiad cyntaf plentyn neu unigolyn ifanc gyda CAMHS a'u hatgyfeirio dilynol i wasanaeth;

c) adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer unedau cleifion mewnol CAMHS a lleoliadau y tu allan i ardaloedd;

d) cyhoeddi ystadegau aildderbyn yn rheolaidd i helpu i lywio tueddiadau yn y system rhyddhau cleifion;

e) sicrhau bod yr holl staff clinigol yn CAMHS wedi cael gwiriadau diogelwch priodol;

f) sefydlu gweithdrefn gadarnach i fyrddau iechyd adrodd ar leoliadau amhriodol ar wardiau iechyd meddwl i oedolion;

g) egluro statws y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth;

h) ystyried cyflwyno addysg iechyd meddwl yn y cwricwlwm ysgol i godi ymwybyddiaeth a helpu i fynd i'r afael â materion o ran stigma; a

i) cyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y pontio rhwng CAMHS a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion, gan gynnwys system rhannu gwybodaeth wedi ei symleiddio rhwng darparwyr.

Mae'r adolygiad 2009 'Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl' ar gael yn:

http://www.hiw.org.uk/Documents/477/CAMHS%20241109-w.pdf

Mae 'Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch' (11 Rhagfyr 2013) ar gael yn:

http://www.hiw.org.uk/Documents/477/CAMHS_Final_welsh.pdf[

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth ar gael yn:

http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/441/SAAT%20User%20Guidance%20Welsh.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn cydnabod y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraethau olynol yng Nghymru i wella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc; a

3. Yn ategu'r dull partneriaeth, lle y gwelir Llywodraeth Cymru, iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid i fynd i'r afael â'r heriau parhaus o ddarparu gwasanaethau effeithiol yn y maes hwn.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod y Comisiynydd Plant wedi mynegi pryder dro ar ôl tro ynghylch y gwasanaethau cymorth i blant a'r glasoed sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu fod gan y toriadau termau real i'r gyllideb iechyd botensial i lesteirio gallu Byrddau Iechyd Lleol Cymru i gyflawni gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i neilltuo gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl ac yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi gwybodaeth i ddangos ei bod yn monitro ac yn cyflawni'r ymrwymiad hwn a sut y mae'n effeithio ar wasanaethau CAMHS.

**Cyfnod Pleidleisio**

8 **Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5483 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Aros ar y Cledrau: Cynnal Cysylltiadau Rheilffyrdd ar gyfer Gogledd Cymru

Pwysigrwydd cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Gogledd Cymru a'r ganolfan HS2 yn Crewe, ynghyd â'r potensial am wella'r capasiti o Wrecsam ac Arfordir Gogledd Cymru i Lerpwl a Manceinion.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Mawrth 2014 i'w hateb ar 2 Ebrill 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

1. **Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o fanteision gwasanaethau addysgol y BBC i bobl Cymru? OAQ(4)0409(ESK)

2. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y consortia rhanbarthol yng Nghymru? OAQ(4)0405(ESK)

3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu ymhlith carcharorion yng Nghymru? OAQ(4)0401(ESK)

4. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn uwch na'r cynnydd yng ngrant bloc Cymru? OAQ(4)0402(ESK)

5. **Nick Ramsay (Mynwy):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i newid y ffordd y mae gwyddoniaeth yn cael ei haddysgu mewn ysgolion? OAQ(4)0403(ESK)

6. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg entrepreneuriaeth yng Nghymru? OAQ(4)0411(ESK)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Her Ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0400(ESK)

**8. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain? OAQ(4)0412(ESK)**W**

**9. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i godi safonau mewn ysgolion? OAQ(4)0407(ESK)**W**

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar atal bwlio mewn ysgolion? OAQ(4)0406(ESK)

**11. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig? OAQ(4)0404(ESK)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddysgu cymunedol? OAQ(4)0410(ESK)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y prentisiaethau yng Nghymru? OAQ(4)0413(ESK)

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod llythrennedd ariannol ar gael i bawb yn y system addysg yng Nghymru? OAQ(4)0414(ESK)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun tocynnau teithio rhatach? OAQ(4)0395(EST)

**2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun peilot i gau Cyffordd 41 yr M4 ym Mhort Talbot? OAQ(4)0394(EST)

**3. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am ddatblygu'r system Metro yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0404(EST)

**4.Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar lwybrau mwy diogel i'r ysgol? OAQ(4)0396(EST)

**5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer datblygu Ardaloedd Menter yn y chwe mis nesaf? OAQ(4)0405(EST)

**6. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffordd osgoi y Bontnewydd a Chaernarfon? OAQ(4)0401(EST)**W**

**7. David Rees (Aberafan):** Pa ddadansoddiad o effaith economaidd sydd wedi ei wneud mewn perthynas â'r cynlluniau arfaethedig i gau ffyrdd ymuno ac ymadael ar Gyffordd 41 yr M4? OAQ(4)0400(EST)

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ardrethi busnes ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0406(EST)

**9. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgarwch Llywodraeth Cymru i annog twf economaidd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0408(EST)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr presennol y diwydiant trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0399(EST)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynyddu buddsoddiad y sector preifat yng Nghymru? OAQ(4)0407(EST)

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i linell reilffordd y Cambrian? OAQ(4)0397(EST)**W**

**13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru? OAQ(4)0392(EST)

**14.William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0402(EST)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffigurau diweithdra diweddaraf yng Nghymru? OAQ(4)0393(EST)

Cynnig i ddiwygio Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) (2010)

Nodyn cefndir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

*"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 5(1) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010:*

*Yn penderfynu bod Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn cael ei diwygio fel nad yw'r swyddi na'r disgrifiadau canlynol o unigolion bellach wedi eu hanghymhwyso o aelodaeth o Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*a) Aelod o Dŷ'r Arglwyddi;*

*b) Unigolyn a oedd yn aelod o'r naill neu'r llall o'r paneli a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad yn unol â phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad dyddiedig 4 Gorffennaf 2007 ac 8 Mai 2008."*

Mae'r Mesur yn sefydlu'r Bwrdd Taliadau annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad.

Mae lle gwag ar y Bwrdd Taliadau yn dilyn ymddiswyddiad y cyn Gadeirydd, Syr George Reid.

Mae Atodlen 1 i'r Mesur yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau i'r Bwrdd Taliadau ac mae'n pennu meini prawf cymhwystra. Ar hyn o bryd, mae'r rhestr o'r rhai sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad, Senedd yr Alban, Senedd Gogledd Iwerddon, Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae personau a oedd yn aelodau o'r naill neu'r llall o'r paneli a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad, yn unol â phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad dyddiedig 4 Gorffennaf 2007 ac 8 Mai 2008, hefyd wedi eu hanghymwyso.

Bu'r rhestr hon o bersonau anghymwys yn faen tramgwydd sylweddol o ran dod o hyd i ymgeiswyr cymwys sydd â'r amrywiaeth briodol o brofiad a sgiliau personol.

Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth i addasu'r Atodlen sy'n rhestru'r personau hynny sy'n anghymwys i fod yn aelodau o'r Bwrdd. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu gwneud newidiadau i'r Atodlen mae'n ofynnol, yn ôl y Mesur, i'r Cwnsler Cyffredinol wneud Gorchymyn i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r Gorchymyn newid yr Atodlen yn y modd y penderfynodd y Cynulliad, a dim ond yn y modd hwnnw;  mewn geiriau eraill nid oes gan y Cwnsler Cyffredinol ddisgresiwn i wneud newidiadau eraill i'r darpariaethau anghymhwyso.

Yn y cynnig hwn, mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnig bod Atodlen 1 i'r Mesur yn cael ei diwygio fel bod mwy o ymgeiswyr â phrofiad priodol i ddewis o'u plith; yn bennaf drwy godi'r gwaharddiad ar aelodau Tŷ'r Arglwyddi rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Yn unol ag Atodlen 2 i'r Mesur rhaid i Glerc y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi aelodau i'r Bwrdd Taliadau. Yn y broses honno, bydd yn ei gwneud yn glir bod croeso i Aelodau Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin a'r deddfwrfeydd datganoledig eraill ymgeisio, ond y byddai'n rhaid iddynt, pe byddai eu cais yn llwyddiannus, adael y ddeddfwrfa berthnasol cyn dod yn aelodau o'r Bwrdd. Bydd croeso hefyd, wrth gwrs, i geisiadau gan bersonau na fuont yn aelodau o unrhyw ddeddfwrfa yn y DU, neu Senedd Ewrop.

Nid oes bwriad yn y cynnig i godi'r gwaharddiad ar Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd Taliadau.

Mawrth 2014

Eitem 4

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Panel Cyfweld**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

1 Ebrill 2014

Annwyl Jocelyn

**Swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: enwebu Mr Nicholas Bennett**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod cyhoeddus brynhawn ddoe i gymryd tystiolaeth gan Mr Nicholas Bennett, yr ymgeisydd a ffefrir gan y Panel ar gyfer enwebiad i swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael maes o law.

Cytunodd y Pwyllgor bod Mr Bennett yn meddu ar y profiad a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y swydd, ac y bydd ei weledigaeth glir ar gyfer y rôl a'i gefndir rhagorol yn ei alluogi i wneud cyfraniad gwerthfawr i swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar y sail hon, mae'r Pwyllgor yn hapus i gymeradwyo enwebiad Mr Bennett.

Yn gywir

Chris Chapman.

**Christine Chapman AC / AM**

**Cadeirydd / Chair**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : PwyllgorCCLll@cymru.gov.uk